DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Practis Deintyddol Llanymddyfri

Dyddiad yr Arolygiad: 15 Mawrth 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Mehefin 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-9569-2
© Hawlfraint y Goron 2014

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Cyd-destun ........ 3

3. Crynodeb ........ 4

4. Canfyddiadau ........ 5

Ansawdd profiad y claf ........ 5

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 7

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 13

5. Y Camau Nesaf ........ 14

6. Methodoleg ........ 15

Atodiad A ........ 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o  Bractis Deintyddfa Llanymddyfri  yn 22 Stryd Carreg,
Llanymddyfri, SA20 0JP, ar 15 Mawrth 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Llanymddyfri yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Llanymddyfri yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llanymddyfri a Sir Gaerfyrddin.  Mae’r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Practis Deintyddol Llanymddyfri yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, chwe nyrs ddeintyddol, dwy hylenydd, un therapydd, un derbynnydd a rheolwr practis. Mae tîm y staff yn gweithio ledled practis Llanymddyfri ac yn y chwaer bractis sydd wedi'i leoli yn Llandeilo.

Busnes sy'n cael ei redeg yn breifat yw Practis Deintyddol Llanymddyfri.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwnaethom ganfod bod practis Llanymddyfri yn bodloni'r safonau angenrheidiol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel
- Roedd cyfarpar digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân yn gyffredinol
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen gorffen gweddill y gwaith yng nghymhorthfa 2 i'r cypyrddau, selio'r llawr a chwblhau'r gwaith i'r gadair ddeintyddol.
- Dylid storio pob eitem sy'n ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)[1] yn ddiogel
- Mae angen sicrhau bod clo cadarn ar yr ystafelloedd dadheintio
- Mae angen adolygu a diweddaru asesiadau risg
- Mae angen storio'r feddyginiaeth a ddefnyddir mewn argyfwng mewn ardal ddiogel, lle nad yw cleifion yn gallu cael mynediad ato
- Cwblhau'r gwaith i'r ardal lle mae'r datblygydd pelydr-X wedi'i leoli er mwyn nodi hon fel ardal glinigol yn unig.
- Cadw cofnodion cleifion

[1] http://www.hse.gov.uk/coshh/index.htm

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i’w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i’r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd naw holiadur. Yn ddieithriad nododd cleifion eu bod wedi derbyn croeso a'u bod yn fodlon ar yr wybodaeth yr oeddent wedi'u derbyn ynghylch eu triniaeth a gyda'r gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *“Gwasanaeth da iawn bob amser.*Mae pawb yn g*wrtais, cyfeillgar a phroffesiynol iawn”*

> *"Bob amser yn fodlon iawn.Roedd fy apwyntiad ar amser, sy'n bwysig i fi am fy mod yn gweithio'n llawn amser"*

> *"Deintyddfa rhagorol, deintydd hyfryd a staff a oedd yn barod iawn eu cymwynas”*

> *“Hapus iawn, gwasanaeth gwych wrth yr holl staff"*

Gofal gydag urddas

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd wrth gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Gwelsom fod gwybodaeth am bris triniaeth y GIG a thriniaeth breifat ar gael yn yr ardal aros, fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gofal amserol

Dywedodd staff y practis wrthym eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n amserol. Nododd yr holl bobl a wnaeth gwblhau holiadur nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintydd. Dywedodd mwyafrif y bobl a wnaeth gwblhau holiadur eu bod yn

gwybod sut i gael mynediad at drefniadau brys y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd y tu allan i'r practis yn dangos manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng, manylion y deintyddion ac oriau agor y practis.

Cadw’n iach

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn gymorth i gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd gwybodaeth i gleifion a gwybodaeth a oedd yn hyrwyddo iechyd yn ymddangos ar sgrin deledu fawr yn ystafell aros y practis. Cytunodd y deintydd y byddai gosod taflenni hyrwyddo iechyd yn yr ardal aros yn fuddiol oherwydd byddai'n hawdd i gleifion gael mynediad atynt.

Gofal unigol

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Roedd manylion ynghylch y weithdrefn gwyno ar gael ar y wal yn yr ystafell aros. Nododd saith allan o'r naw ymatebydd eu bod yn gwybod sut i gyflwyno cwyn. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod copïau o'r weithdrefn gwyno'n hygyrch, ar ddesg y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd pe bai angen.

Roedd y weithdrefn gwyno yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer nodi pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella') yn ogystal â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.[2]

Gwelsom fod cofnod o ganmoliaeth, pryderon a chwynion yn cael eu cadw. Rheolwr y practis oedd y rheolwr cwynion penodedig. Roedd dogfennau allweddol, megis gweithdrefnau cwyno ar gael yn y Gymraeg a nododd pawb a wnaeth ymateb i'r holiadur eu bod yn cael cynnig iaith o'u dewis i gyfathrebu â'r staff.

Roedd gan y practis fodd sefydledig o geisio adborth gan gleifion. Gwelsom dystiolaeth bod arolygon bodlonrwydd cleifion wedi'u dosbarthu er mwyn casglu adborth ac awgrymiadau gan gleifion. Awgrymwyd y dylai'r practis ddatblygu proses ffurfiol ar gyfer adolygu adborth a dderbynnir wrth gleifion. Dylid crynhoi

[2] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

unrhyw ganlyniadau, camau neu ddysgu o ganlyniad i adborth cleifion, a rhoi adborth i gleifion er eu gwybodaeth.

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus.Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd. Fodd bynnag, mae angen gorffen gweddill y gwaith yng nghymhorthfa 2 i'r cypyrddau, selio'r llawr a chwblhau'r gwaith i'r gadair ddeintyddol.Mae angen cadw nodiadau cleifion yn unol â chanllawiau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.**

**Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, mae angen rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y dull o storio Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn gadarn.Mae angen adolygu mynediad at yr ystafell staff a'r gwaith o gynnal a chadw'r ardal honno. Mae angen adolygu mynediad at yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel. Mae angen adolygu a diweddaru asesiad risg amgylcheddol y practis. Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, mae angen storio meddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys mewn ardal ddiogel, lle mae mynediad i gleifion wedi'i gyfyngu'n briodol.**

**Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r ardal lle mae'r datblygydd pelydr-X wedi'i leoli er mwyn nodi hon fel ardal glinigol yn unig.Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.**

<u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis wedi ei gynnal yn dda i bob golwg ac roedd yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Fodd bynnag, mae angen gorffen gweddill y gwaith yng nghymhorthfa 2 i'r cypyrddau, selio'r llawr a chwblhau'r gwaith i'r gadair ddeintyddol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen gorffen gweddill y gwaith yng nghymhorthfa 2 i'r cypyrddau, selio'r llawr a chwblhau'r gwaith i'r gadair ddeintyddol.***

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis. Roedd tystiolaeth o dystysgrif ar gyfer gwifrau trydan yr adeilad ar gael hefyd.

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a gweld bod taflenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd yn ogystal ag asesiadau risg priodol. Fodd bynnag, mae angen rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod eitemau sy'n ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn cael eu cadw'n ddiogel.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid cadw pob eitem sy'n ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn ddiogel bob amser.***

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw’n beryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer offer diogelwch tân, ac roedd arwyddion tân ac asesiadau risg yn amlwg. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith.

Mae angen i'r wybodaeth yn y canllaw i gleifion fod yn fanwl gywir, ac wedi'i hadolygu a'i diweddaru, ynghylch materion yn ymwneud â mynediad at Reoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, meddyginiaethau brys a'r ystafell ddadheintio. Gwnaethom gynghori y dylid sicrhau mynediad diogel at ystafell y staff sydd gyferbyn â'r ardal aros, ac y dylid ei chadw a'i chynnal yn well.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r wybodaeth yn y canllaw i gleifion fod yn fanwl gywir, ac wedi'i hadolygu a'i diweddaru***

***<u>Rheoli heintiau</u>***

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau’n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

- Roedd cyfarpar diogelu personol, megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc benodol i olchi dwylo.
- Roedd yr offer a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profion dyddiol.
- Roedd offerynnau yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio.

Roedd polisi rheoli dadheintio ar waith, a gwnaethom argymell y gallai hwn a pholisïau allweddol eraill gael eu harwyddo a'u dyddio gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen polisïau allweddol. Fodd bynnag, canfuom fod statws gwirio brechiadau imiwneiddio'r staff yn gyfredol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[3] (WHTM 01-05), ac roedd y staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant diweddaru ym maes dadheintio bob pum mlynedd. Fodd bynnag, roedd angen i'r mynediad at yr ystafell ddadheintio fod yn fwy diogel, am nad oedd drws ar gael i sicrhau na fyddai cleifion yn cael mynediad at yr ardaloedd clinigol hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r mynediad at yr ystafell ddadheintio fod yn fwy diogel.***

*Cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg). Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd y practis wedi

---

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

penodi swyddogion cymorth cyntaf yn y tîm a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith ac roedd taflenni damweiniau a gwblhawyd yn cael eu ffeilio'n ddiogel i gynnal safonau diogelu data.

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng wedi eu trefnu'n dda, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Roedd cofnod o'r gwiriadau rheolaidd o gyffuriau brys yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, mae angen i'r meddyginiaethau brys gael eu storio mewn ardal ddiogel, lle nad oes gan gleifion fynediad atynt.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Mae angen i'r meddyginiaethau brys gael eu storio mewn ardal ddiogel, lle nad oes gan gleifion fynediad atynt.**

*Diogelu*

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn priodol ar waith, ac roedd yr hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl aelodau staff perthnasol. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gwiriadau clirio gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer yr holl staff.

*Offer radiograffeg*

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod y rhan fwyaf o'r staff sydd ynghlwm wrth dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[4] a Rheoliadau

[4] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000[5]. Cedwid ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, a rhoddwyd cyngor ynghylch sicrhau bod y manylion ynddo yn fwy penodol i'r practis. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r ardal lle mae'r datblygydd pelydr-X wedi'i leoli er mwyn nodi hon fel ardal glinigol yn unig.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Mae angen adolygu'r ardal lle mae'r datblygydd pelydr-X wedi'i leoli er mwyn nodi hon fel ardal glinigol yn unig.**

*Cofnodion cleifion*

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol a gwnaethom siarad ag un ymarferydd deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Gwiriadau rhag canser y geg a chydsyniad cleifion i'w cofnodi yn barhaus
- Cynlluniau triniaeth ysgrifenedig i'w cofnodi yn barhaus
- Cyfiawnhad ar gyfer radiograffau i gael eu cofnodi'n barhaus
- Opsiynau cynlluniau triniaeth i gael eu trafod a'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion yn unol â'r canfyddiadau clinigol a radiograffeg yn barhaus

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cadw nodiadau cleifion yn unol â chanllawiau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

**<u>Gofal effeithiol</u>**

---

[5] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau. Roedd tystiolaeth i nodi bod trefniadau ar waith i staff gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd.

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Mae gan Bractis Deintyddol Llanymddyfri dîm sydd wedi hen sefydlu, ac mae trosiant y staff yn isel. Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y deintydd arweiniol a rheolwr practis.Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.**

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i’w gweld yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swydd a’u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Gwnaethom roi cyngor ynghylch datblygu'r dogfennau ymsefydlu a'r cofnodion. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod y rhain yn cael eu cofnodi.Roedd arfarniadau blynyddol hefyd yn cael eu cynnal ar gyfer y staff.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis. Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch a sicrwydd data personol.

Gwnaethom gynghori bod yr holl bolisïau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd fel eu bod yn cael eu llofnodi a'u dyddio a bod dyddiad ar gyfer yr adolygiad nesaf yn cael ei gofnodi. Roedd polisi sicrhau ansawdd ar waith ac roedd proses ddi-dor o archwilio ac adolygu fel ffordd o gynnal gwelliannau parhaus i ansawdd y gofal a ddarperir.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a ganfuwyd ym Mhractis Deintyddol Llanymddyfri yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys graddfeydd amser.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd.  Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[6] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[7] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Llanymddyfri

## Dyddiad yr arolygiad: 15 Mawrth 2017

| **Rhif y dudalen** | **Yr hyn y mae angen ei wella** | **Rheoliad / Safon** | Camau gweithredu'r practis | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | | |
| | Dim | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | | |
| 8 | Mae angen gorffen gweddill y gwaith yng nghymhorthfa 2 i'r cypyrddau, selio'r llawr a chwblhau'r gwaith i'r gadair ddeintyddol. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth | Gweddnewidiad newydd gan gynnwys cadair ddeintyddol newydd, cypyrddau, arwynebedd gwaith a llawr fel y cynlluniwyd fel rhan o waith adnewyddu presennol y practis | Adam Llewellyn | Yr wythnos ddiwethaf ym mis Mehefin 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b) a (d) a 14 (6)<br><br>*Rheoliadau'r Gweithle 1992 (Iechyd, Diogelwch a Lles)* | | | |
| 8 | Dylid storio pob eitem sy'n ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn ddiogel | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 Rheoliad 14 (1) (d)<br>*Rheoliadau* | Ar hyn o bryd, mae eitemau sy'n ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn cael eu cadw y tu ôl i ddrws caeedig (ond defnyddir y drws yn rheolaidd). Y bwriad yw gosod drws cadarn [sy'n rhannu'n ddwy ran] | Adam Llewellyn | Cafwyd dyfynbris wrth adeiladwr, y gwaith i'w orffen erbyn mis Mai 2017 |

| **Rhif y dudalen** | **Yr hyn y mae angen ei wella** | **Rheoliad / Safon** | Camau gweithredu'r practis | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002* | | | |
| 8 | Rhaid adolygu a diweddaru'r asesiad risg amgylcheddol | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999* | Gosod drysau a waliau newydd a newid lleoliad y peiriant pelydr-X | Adam Llewellyn | Mai 2017. |
| 9 | Mae angen gwneud mynediad at yr ystafelloedd dadheintio yn ddiogel. | Safonau Iechyd a | Ar hyn o bryd, mae'r ystafell ddadheintio y tu ôl i ddrws caeedig | Adam Llewellyn | Cafwyd dyfynbris |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gofal 2.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (d)<br><br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05* | (ond defnyddir y drws yn rheolaidd). Y bwriad yw gosod drws cadarn [sy'n rhannu'n ddwy ran] | | wrth adeiladwr, y gwaith i'w orffen erbyn mis Mai 2017 |
| 10 | Mae angen i'r meddyginiaethau brys gael eu storio mewn ardal ddiogel, lle nad oes gan gleifion fynediad ato. | Safonau Iechyd a Gofal 2.6<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Ar hyn o bryd mae meddyginiaeth i'w defnyddio mewn argyfwng yn cael ei storio mewn blwch na all plentyn ei agor ac yn cael ei symud o un ystafell driniaeth i'r llall.<br>Y bwriad yw ei osod tu ôl i ddrws | Adam Llewellyn | Cafwyd dyfynbris wrth adeiladwr ynghylch drws a wal newydd, y gwaith i'w orffen erbyn |

| **Rhif y dudalen** | **Yr hyn y mae angen ei wella** | **Rheoliad / Safon** | Camau gweithredu'r practis | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 14 (1) (b) | | | mis Mai 2017. |
| 10 | Mae angen adolygu'r ardal lle mae'r datblygydd pelydr-X wedi'i leoli er mwyn nodi hon fel ardal glinigol yn unig. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | Y bwriad yw symud y datblygydd pelydr-X i'r cwpwrdd Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd | Adam Llewellyn | Mai 2017. |
| 11 | Mae angen cadw nodiadau cleifion yn | Safonau | Archwiliad clinigol ac archwiliad | Adam | Wedi'i |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | unol â chanllawiau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | Iechyd a Gofal 3.3, 3.5, 4.2<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4* | adolygu gan gymheiriaid a gynhaliwyd drwy Ddeoniaeth Cymru ar gyfer "Cadw Cofnodion a Hanesion Meddygol". | Llewellyn | ddechrau, ond i'w gwblhau erbyn mis Medi 2017. Mae gwelliannau eisoes wedi cael eu rhoi ar waith yn dilyn adborth wrth yr adolygiad AGIC hwn. |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Dim | | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw:** **Adam Llewellyn**

**Teitl:** **Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:5 Ebrill 2017**